# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, B. Durkin, W. T. Hughes, W. I. Hughes, Eric Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, T. H. Jones, A. Morris Jones, C. McGregor, Bryan Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr K. Evans, D. R. Hughes, Rhian Medi, O. Glyn Jones, G. O. Parry MBE, G. W. Roberts OBE, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Mri. Alex Aldridge, Gareth Jones a Mrs Margaret Foster (Comisiynwyr) |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Eric Jones

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb sydd ddim yn rhagfarnu gan y Cynghorydd Aled Morris Jones gan mai ef yw Ysgrifennydd Pwyllgor Ynys Môn Cymdeithas Sioe Frenhinol Cymru.
Gwnaed datganiad o ddiddordeb sydd ddim yn rhagfarnu gan y Cynghorydd R. G. Parry OBE oherwydd mae'n Aelod o Orsedd Beirdd Prydain Fawr.
Wedi derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro, cymerodd y ddau aelod ran yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau cynhesaf y Cyngor i'r Cynghorydd John Penri Williams ar achlysur ei briodas ar 7 Gorffennaf 2011 a dymunodd i'r Cynghorydd a Mrs Williams y gorau am y dyfodol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd ddisgyblion cyfnod sylfaenol Ysgol Ffrwd Win, Llanfaethlu a ddaeth yn gydradd gyntaf yn y Gystadleuaeth "Dathlu Addysg Grefyddol". Roeddynt wedi paratoi cyflwyniad digidol ar y thema "Llefydd Arbennig" gan ennill gwobr o £200 i'r ysgol. Cyhoeddwyd hyn yn y cyfarfod o GYSAG Cymru a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ar 24 Mehefin 2011.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion cyfnod allweddol Ysgol Ffrwd Win ar fod yn bencampwyr cenedlaethol mewn cystadleuaeth o'r enw "Sut fath o ddegawd oedd y 60au?". Byddant yn derbyn siec am £1,000. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd K. Hughes fynegi llongyfarchiadau cynhesaf y Cyngor i'r Ysgol ar ei llwyddiannau aruthrol.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Dîm Ynys Môn ar ei llwyddiant yn y Gemau'r Ynysoedd yn Ynys Wyth. Bu iddynt ennill dwy fedal aur a dwy fedal arian. Perfformiodd yr athletwyr iau yn dda iawn a dymunwyd iddynt bob llwyddiant am y dyfodol.

Llongyfarchwyd Meilyr Jones o Langefni a enillodd y Gystadleuaeth Unigol i bobl ifanc rhwng 15-19 oed yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Ŵyl Blant a gynhelir ar 13 Gorffennaf 2011.

**Cydymdeimlad**

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â'r canlynol yn eu profedigaethau yn ddiweddar:-

Y Cynghorydd O. Glyn Jones a oedd wedi colli ei frawd;
Y Cynghorydd J. Arwel Roberts a oedd wedi colli ei fam;
Mr. John Gould a oedd wedi colli ei dad;
Mr. T. Gwyn Jones a oedd wedi colli ei chwaer.

Yn ogystal, mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Cyngor sydd wedi dioddef profedigaeth. Safodd yr aelodau a'r swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o barch.

Daeth y Cadeirydd a'i araith i ben trwy ddiolch i bawb a fynychodd Gwasanaeth Sul y Maer yng Nghapel Hebron MC, Bryngwran ar ddydd Iau 9 Gorffennaf 2011. Diolchodd yn arbennig i Mrs Mary Jones, y Swyddog Dinesig am y trefniadau ardderchog.

**3 YMGYNGHORIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU - CYNNAL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2017 - 2022**

Cyflwynwyd i'w hystyried - Adroddiad gan y Prif Weithredwr ynghyd â gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru ddyddiedig 1 Mehefin 2011 mewn perthynas â'r uchod.

Yn ogystal, nododd yr aelodau y cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2011 pryd penderfynodd y Bwrdd *"argymell i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ym mis Gorffennaf bod y Pwyllgor hwn yn mynegi diddordeb mewn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017."*

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cyfarfod Arbennig hwn o'r Cyngor Sir wedi cael ei drefnu i ystyried mynegi diddordeb mewn cynnal naill ai Eisteddfod yr Urdd neu Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Ynys Môn. Dywedodd bod gan Ynys Môn draddodiad hir o gynnal y ddwy Eisteddfod yn llwyddiannus a bod y digwyddiadau wedi cyfrannu tuag at gynnal y traddodiadau a'r dreftadaeth sydd ynghlwm wrth y digwyddiadau arbennig hyn.

Cydnabu goblygiadau ariannol cynnal y digwyddiadau i Awdurdodau Lleol yn y gorffennol, fodd bynnag, caiff cyfraniad yr awdurdod lleol yn awr ei dalu'n ganolog drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy dynnu arian o'r grant cefnogi'r trethi a dderbynnir gan awdurdodau lleol. Roedd gwneud i ffwrdd â'r gost ariannol yn naturiol wedi cynyddu'r diddordeb mewn cynnal yr eisteddfod gan gwrdd â bwriad CLILC y dylai'r ddwy Eisteddfod barhau i deithio ar draws Cymru.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod ef ynghyd â'r Cynghorwyr C. McGregor ac R. G. Parry OBE, sef Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor bryd hynny wedi cwrdd â Dr. Derec Llwyd Morgan ar gais y Dr. Morgan i mofyn cefnogaeth y Cyngor ac i annog y Cyngor i wahodd yr Eisteddfod i'r Ynys. Roedd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi gofyn i'r Prif Weithredwr gysylltu gydag CLlLC ynglŷn â'r mater ac o ganlyniad, dywedwyd wrtho y byddai CLlLC yn gwahodd diddordeb gan holl Gynghorau Cymru ynghylch cynnal yr Eisteddfodau yn y man.

Dywedodd y Bwrdd Comisiynwyr eu bod yn credu'n gryf ei bod hi'n briodol ac yn ddymunol i'r Ynys groesawu'r Eisteddfod i Ynys Môn ar yr amod bod yr aelodau'n cymeradwyo'r cynnig. Roedd y Comisiynwyr wedi nodi gwerth cynnal digwyddiad o'r fath er mwyn codi proffil y Cyngor a chreu ffenestr siop i ddangos yn glir beth fedr y Cyngor ei gyflawni tra, ar yr un pryd, yn rhoddi hwb i economi'r Ynys. Credai'r Comisiynwyr y byddai'n gam cadarnhaol tuag at weithio gyda'r holl gymunedau ledled yr Ynys. Yn ychwanegol at hyn, byddai'r cynnig yn cwrdd ag amcanion strategol y Cyngor trwy ddod â phobl at ei gilydd ac annog cydweithio rhwng y Cyngor a'r cymunedau lleol.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau nad oedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ymweld ag Ynys Môn ers 1999 a bod Eisteddfod yr Urdd wedi cael ei chynnal ar yr Ynys yn 2004. O'r herwydd, credai ef mai'r peth gorau i'w wneud fyddai gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Ynys Môn yn 2017. Byddai hyn yn rhoi cyfnod o 6 mlynedd i sicrhau bod y strwythurau cywir wedi eu sefydlu ac i ganiatáu digon o amser ar gyfer cynllunio a chodi arian yn lleol. Petai'r gwahoddiad i gynnal yr Eisteddfod yn aflwyddiannus, yna gellid estyn gwahoddiad ar gyfer 2019 neu 2021. Dywedodd y byddai'n gynamserol trafod lleoliad yr Eisteddfod hyd oni fyddai canlyniad y gwahoddiad yn hysbys. Fodd bynnag, yn ei farn bersonol ef, gan gadw mewn cof y gwelliannau a wnaed o ran isadeiledd ers cwblhau'r A55 ar draws yr Ynys, byddai'n rhesymol ac yn briodol i ystyried safle yng Ngogledd yr Ynys. Gorffennodd drwy atgoffa'r aelodau o'r ddau argymhelliad a oedd gerbron yn cyfarfod.

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Owen, ei fod yn falch o gynnig yr argymhellion a chyflwyno mynegiant ffurfiol o ddiddordeb i CLlLC cyn y dyddiad cau o 15 Gorffennaf. Eiliodd y Cynghorydd Lewis Davies y cynnig.

Tra'n cefnogi'r cynnig yn llawn, mynegodd y Cynghorydd Eurfryn Davies rai pryderon ynghylch dod o hyd i safle priodol ar gyfer yr Eisteddfod. Nid oedd o'n credu bod safle Llanbedrgoch wedi bod yn un priodol. Eglurodd y Prif Weithredwr y cyfyngwyd ar y dewis o safle ar y pryd oherwydd nad oedd ffordd ddeuol yr A55 ar draws yr Ynys wedi cael ei chwblhau.

Atgoffodd y Cynghorydd W. T. Hughes yr Aelodau y bydd Ynys Môn yn cynnal Sioe Frenhinol Cymru yn 2013 a gofynnodd i'r Aelodau ystyried a yw'n gynamserol i wahodd yr Eisteddfod yn 2017 oherwydd gallai hyn roddi cymunedau dan bwysau o ran eu hymdrechion i godi arian. Roedd yn llwyr gefnogi'r cynnig i gynnal yr Eisteddfod ar Ynys Môn ac yn croesawu'r cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd K.Hughes ei fod o'n ffodus i fod yn ddwyieithog ac yn croesawu'r cynnig. Nid oedd yn credu y dylid gwahodd yr Eisteddfod er budd y Cyngor ond yn hytrach er budd pobl ifanc a phobl hŷn oherwydd mai hon yn ŵyl sy'n unigryw i Gymru ac yn un y dylem fod yn falch ohoni.

Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yntau'n cefnogi'r cynnig a'r awgrymiad y dylid cynnal yr Eisteddfod yng Ngogledd Môn. Roedd yn rhannu pryderon y Cynghorydd W. T. Hughes ac am yr un rheswm, yn credu y byddai efallai yn fwy priodol i wahodd yr Eisteddfod yn 2019. Roedd o hefyd yn dymuno aildrafod y mater a oedd yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog ac yn gobeithio gweld y mater hwn yn cael sylw drwy CLlLC fel y gellid cynnal Seremoni bob dwy flynedd.

Nid oedd y Cynghorydd B. Durkin yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu'r awgrymiad ac yn cefnogi'n llawn y cynnig i wahodd yr Eisteddfod yn 2017.

Llongyfarchodd y Cynghorydd T. H. Jones y Cadeirydd ar y Gwasanaeth Sul y Maer ac yn arbennig, cyfeiriodd at gyfraniad y bobl ifanc i'r gwasanaeth. Roedd o'n credu bod yr Eisteddfod yn cynnig i'r ifanc a rhai sydd ddim mor ifanc y cyfle i berfformio ar lwyfan ac roedd yn cefnogi'n llawn y cynnig i wahodd yr Eisteddfod yn 2017.

Dywedodd y Cynghorydd R. Dylan Jones o'i brofiad ei hun pan yn canu mewn Eisteddfodau, y cafodd y cyfle i berfformio ar lwyfan a gwneud cyfeillion o bob rhan o Gymru. Cyfeiriodd at y bobl ifanc a'r angen i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i fwynhau agweddau pwysig a diwylliant a threftadaeth Cymru a phwysleisiodd er bod y rhain yn adegau anodd, credai y byddai gwahodd yr Eisteddfod i Ynys Môn yn 2017 yn dod â goleuni a gobaith i'r Ynys.

Anogodd y Cynghorydd Elwyn Schofield y Cyngor i symud yn gyflym a gwahodd yr Eisteddfod yma yn 2017 ac os caiff y gwahoddiad ei wrthod, yna dylid ei gwneud hi'n glir bod yr Ynys yn dymuno cynnal yr Eisteddfod cyn gynted ag sy'n bosibl.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**

**i)** **bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r arweiniad a roddwyd gan y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2011 ac yn anfon mynegiant ffurfiol o ddiddordeb i CLILC mewn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Sir yn 2017 neu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y dyddiad hwnnw.**

**ii)** **yn dilyn mynegi diddordeb yn ffurfiol, bod y Cyngor Sir yn ymgynghori gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ar yr Ynys i roi gwybod iddynt am yr hyn a wnaed ac yn eu gwahodd i gefnogi'r cais ac i gydweithio gyda'r Cyngor ar ran y Cymunedau er mwyn ymateb i'r sefyllfa fel sy'n briodol.**

**GWILYM O. JONES**
**CADEIRYDD**